Cyfarfu'r Cyngor Cymuned ar Orffennaf 20fed 2018 am 7 o'r gloch yn Neuadd Santes Ursula

Presennol : Huw Griffith, Fred Jones, Islwyn Jones, Margaret Lewis, Dai Jones a'r clerc

Ymddiheuriad : Dylan Davies, Morgan Morgan, Lyn Davies, Cynghorydd Rowland Rees-Evans

Darllenwyd cofnodion cyfarfod Mehefin ac arwyddwyd eu bod yn gywir.

Materion yn codi

Clic Ceredigion. Adroddodd y clerc iddi dderbyn hyfforddiant personol ac wedi defnyddio'r system i anfon ymholiadau ynglŷn â'r polion trydan, arwydd cyflymder, a biniau halen ond dim ond ateb awtomatic a gafwyd.
Darllenwyd llythr y Clwb Garddio yn gosod allan y costau tybiedig ar gyfer prosiect garddio yn cynnwys plant yr ysgol. Cytunwyd i gyfrannu £250 o gyfrif rhif 2, gan awgrymu y gellid torri i lawr ar y costau o wneud ymholiadau gyda ffermwyr lleol am lwyth o bridd, ac na thelid yr arian nes gweld bod y gwaith wedi ei ddechrau. Soniwyd y byddai modd i'r Clwb wneud cais am arian ychwanegol os codai'r angen yn nes ymlaen.

Gohebiaeth

Derbyniwyd gwybodaeth am Bwyllgor Rheoli Datblygu Gorffennaf; cyfarfod o bwyllgor Ardal Ceredigion Un Llais Cymru; Cyfarfod Blynyddol Un Llais Cymru; Cylchlythr wrth Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddi; dyddiadau hyfforddiant ar Cyllid Llywodraeth Leol; gwybodaeth am ofynion Cynllunio diwygiedig ynglŷn â charthffosiaeth mewn datblygiadau newydd.
Ymgynghoriad ynghylch Safleoedd Posibl ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol newydd, ac ymgynghoriad ar Strategaeth Iaith Ceredigion a chyflawni llwybr carbon isel at 2030.
Gwasanaeth Tân ac Achub yn gofyn barn a ydynt yn darparu gwerth da am arian, a Swyddfa Archwilio Cymru yn gofyn am farn ar y gwasanaethau i ofalwyr.
Cais am aelodau newydd i Fforwm Mynediad Lleol Ceredigion.
Woodland Trust yn gofyn a oedd coeden nodedig yn yr ardal yr hoffid rhoi sylw arbennig iddi.

Derbyniwyd galwad wrth Grant Thornton yn gofyn am ragor o fân wybodaeth oedd angen ar gyfer y ffurflen flynyddol. Cwblhawyd y gofynion i gyd.

Hysbysiad Cau ffordd dros dro o Penciog i Penbont o Awst 2il i Medi 10fed

Materion Ariannol

Derbyniwyd bil Trydan (am 2 fis) o £28.35 oddi wrth Scottish Power.
Ar ôl talu hwn bydd £1343.07 ar ôl yn y cyfrif cyfredol.
Trafodwyd y ffaith na ddylai'r Cyngor Cymuned fod yn talu am y trydan gan mai'r Cyngor Sir sydd yn gyfrifol amdano. Gofynnwyd i'r clerc godi'r mater eto gyda'r adran berthnasol yn Aberaeron ac oedi talu'r bil am y tro.
Cyfri 2 - £27,051.48 ond £400 canolfan Bethel heb fynd allan.
Awdurdodwyd talu cyflog y clerc - £200 o'r cyfrif cyfredol a £100 o gyfrif rhif 2

Unrhyw Fater Arall

Codwyd y mater o'r angen am hysbysfwrdd newydd yn Nhrefenter a chytunwyd i wneud ymholiadau pellach.
Derbyniwyd gwybodaeth o'r ysgol eu bod wedi ennill baner werdd ECO a gofyn a fyddai modd symud polyn fflag y pentref yn nes at yr ysgol. Cytunwyd y byddai symud y polyn yn anymarferol ond y byddai croeso i'r ysgol ychwanegu eu baner hwy at y polyn.

Dyddiad y cyfarfod nesaf - Medi 20fed